

**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ddydd Mercher, 8 Ionawr 2025.**

*[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.*

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau.]***

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, John Ifan Jones, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R LI Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts ac Alwen Pennant Watkin

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Neville Evans, Robin Williams a Liz Wood

**Hefyd yn bresennol:** Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Douglas Fowlie (ar gyfer ceisiadau 7.1 a 7.2)

Y Cynghorwyr Nicola Roberts, Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd, Kenneth Hughes, Derek Owen.

1:00yp hyd 1:45yp

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>2 DATGANIAD O DDIDDORDEB</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</b>
PENDERFYNIAD	<b>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 YMWELIADAU SAFLE</b>
PENDERFYNIAD	<b>Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 CEISIADAU'N CODI</b>
PENDERFYNIAD	<p>7.1 FPL/2024/230 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd llawr gwaelod presennol yr annedd i fod yn rhan o'r siop bresennol (Defnydd A1) ym Mona House, Ffordd Caergybi, Gwalchmai</p> <p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.</b></p> <p>7.2 FPL/2024/65 – Cais ôl-weithredol ar gyfer creu lagŵn slyri ar dir ger Bryn Cwr, Gwalchmai</p> <p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac ar ddiwygio amod (03) i ddweud bod rhaid gosod yr holl ffensys o fewn tri mis i ddyddiad y caniatâd cynllunio.</b></p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 CEISIADAU ECONOMAIDD</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>10 CEISIADAU'N GWYRO</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>12 GWEDDILL Y CEISIADAU</b>
PENDERFYNIAD	<p>12.1 FPL/2024/209 – Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw'r gwaith adfer ar Afon Braint ac Afon Eryr Uchaf ar dir ger Canolfan Rheoli Gwastraff y Cartref, Penhesgyn</p> <p><b>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.</b></p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>13 MATERION ERAILL</b>
PENDERFYNIAD	<b>Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.</b>